# Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Crynodeb Archwilio Blynyddol 2021



Dyma ein crynodeb archwilio ar gyfer Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Mae'n dangos y gwaith a gwblhawyd ers y Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2021. Mae ein crynodeb archwilio yn rhan o ddyletswyddau Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Mae rhagor o wybodaeth am y dyletswyddau hyn ar gael ar ein gwefan.

## Ynglŷn â'r Awdurdod Tân ac Achub

### Rhai o'r gwasanaethau y mae'r Awdurdod Tân ac Achub yn eu darparu



| Ffeithiau allweddol |
| --- |
| Mae'r Awdurdodau Tân ac Achub yn cynnwys dau aelod etholedig a enwebir, yn cynrychioli'r awdurdodau lleol ar draws ardal yr Awdurdod Tân ac Achub yn ei chyfanrwydd, ac yn Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru maent yn dod o Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Powys, ac Abertawe. Mae'r Awdurdod Tân ac Achub wedi'i gyfansoddi o 25 o gynghorwyr sy'n cynrychioli eu hawdurdodau cyfansoddol a'r pleidiau gwleidyddol canlynol:<br>• Cynghrair Glymbleidiol 15<br>• Llafur 9<br>• Digysylltiad 1 |
| Gwariodd yr Awdurdod Tân ac Achub £51.06 miliwn ar ddarparu gwasanaethau yn ystod 2020-21, sy'n gynnydd o 4.33% o 2019-20[1]. |
| Ar 31 Mawrth 2021, roedd gan yr Awdurdod Tân ac Achub £1.33 miliwn o gronfeydd arian parod cyffredinol wrth gefn a £7.97 miliwn o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi. |

[1] Ffynhonnell: Datganiad o Gyfrifon 2020-21

**Ffeithiau allweddol**

Mae gan Awdurdodau Tân ac Achub rwymedigaeth statudol o dan Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 i weithredu Gwasanaeth Tân ac Achub sy’n gallu ymdrin yn effeithiol â phob galwad am gymorth mewn achos o dân ac achosion brys eraill.

Mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb cyffredinol am benderfynu ar bolisi yn ymwneud ag Awdurdodau Tân ac Achub. Ar lefel leol, mae’n rhaid i Awdurdodau Tân ac Achub fodloni gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, yn ogystal â’r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub.

Derbynnir y rhan fwyaf o’r cyllid ar gyfer y tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru trwy ardoll gan yr awdurdodau unedol lleol yn eu hardal. Mae’r cyfraniad yn seiliedig ar niferoedd poblogaeth.

# Dyletswyddau’r Archwilydd Cyffredinol

## Cwblhawyd gwaith gennym yn ystod 2020-21 i fodloni’r dyletswyddau canlynol

- **Archwilio Cyfrifon**

  Bob blwyddyn mae’r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio datganiadau ariannol yr Awdurdod i wneud yn siŵr bod arian cyhoeddus yn cael ei gyfrifyddu yn briodol.

- **Gwelliant parhaus**

  Mae’n rhaid hefyd i’r Awdurdod roi trefniadau ar waith i wneud gwelliannau parhaus, gan gynnwys cynlluniau ac adroddiadau cysylltiedig, ac mae’n rhaid i’r Archwilydd Cyffredinol asesu a yw’r Awdurdod wedi bodloni’r gofynion hyn.

- **Gwerth am arian**

  Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio a yw’r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith i gael gwerth am arian o’r adnoddau y mae’n eu defnyddio, ac mae’n rhaid iddo fod yn fodlon ei fod wedi gwneud hyn.

- **Egwyddor datblygu cynaliadwy**

  Mae angen i gyrff cyhoeddus gydymffurfio â’r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu a chymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant. Mae’n rhaid i’r Archwilydd Cyffredinol asesu i ba raddau y maent yn gwneud hyn.

Rydym yn parhau i gydnabod y straen enfawr ar wasanaethau cyhoeddus ac i weithio mewn ffordd sy’n ceisio lleihau’r effaith ar ymateb cyrff cyhoeddus i COVID-19, gan barhau i gyflawni ein dyletswyddau statudol.

**I gyflawni dyletswyddau’r Archwilydd Cyffredinol, rydym yn cwblhau prosiectau penodol. Rydym yn ystyried canfyddiadau ein gwaith archwilio wrth asesu a yw’r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau gwerth am arian. Caiff ein canfyddiadau a’n casgliadau eu crynhoi isod.**

# Yr hyn a ganfuwyd gennym

## Archwiliad o Gyfrifon 2020-21 Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Rydym yn archwilio datganiadau ariannol yr Awdurdod bob blwyddyn.

### Ar gyfer 2020-21:

- rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamod gwir a theg ar ddatganiadau ariannol yr Awdurdod ar 28 Gorffennaf 2021, tri diwrnod cyn y dyddiad terfyn statudol.
- paratowyd Datganiad Llywodraethu ac Adroddiad Naratif Blynyddol yr Awdurdod yn unol â Chod y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a chanllawiau perthnasol. Roeddent yn gyson â’r datganiadau ariannol a baratowyd gan yr Awdurdod a gyda’n gwybodaeth am yr Awdurdod.
- roedd ansawdd y datganiadau drafft a gyflwynwyd i’w harchwilio ar 28 Mai 2021 yn dda iawn.
- gwnaed nifer fach iawn o newidiadau i ddatganiadau ariannol yr Awdurdod yn deillio o’n gwaith archwilio, a adroddwyd i’r Pwyllgor Archwilio yn ein Hadroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol ym mis Gorffennaf 2021.
- Cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol y dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o gyfrifon ar gyfer 2020-21 wedi’i gwblhau.

## Ein gwaith mewn ymateb i bandemig COVID-19

Mewn ymateb i bandemig COVID-19, newidiwyd dull a phwyslais ein gwaith archwilio perfformiad mewn llywodraeth leol a chyrff cyhoeddus eraill. Ceir crynodeb isod o rywfaint o'r gwaith yr ydym wedi ei wneud mewn ymateb i'r pandemig ar draws nifer o sectorau, y mae llawer ohono yn berthnasol i lywodraeth leol.

Gwnaethom gynnal prosiect i gefnogi ymdrechion y sector cyhoeddus trwy rannu'r hyn a ddysgwyd drwy'r pandemig. Nod y prosiect yw helpu i gymell rhywfaint o syniadau a chyfnewid arferion. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar ein gwefan.

Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddwyd adroddiad cenedlaethol gennym yn cynnig trosolwg o gynnydd hyd yma o ran Profi, Olrhain, Diogelu yng Nghymru. Ym mis Rhagfyr 2020, fe wnaethom hefyd gyhoeddi rhai o arsylwadau yr Archwilydd Cyffredinol ar y broses o gaffael a chyflenwi cyfarpar diogelu personol yn ystod pandemig COVID-19, ac yna adroddiad ym mis Ebrill 2021. Hefyd, ym mis Mehefin 2021, cyhoeddwyd ein hadroddiad ar weithredu'r rhaglen frechu COVID-19 yng Nghymru.

## Gwelliant parhaus

Ardystiodd yr Archwilydd Cyffredinol bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau cyfreithiol ar gyfer cynllunio ac adrodd ar welliant ac mae o'r farn ei fod yn debygol o fodloni gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn ystod 2020-21.

## Adroddiad Cydnerthedd Corfforaethol

Ym mis Mai 2021, fe wnaethom gyhoeddiad ein hadroddiad ar gydnerthedd corfforaethol yr Awdurdod. Daethpwyd i'r casgliad bod yr Awdurdod yn gydnerth ond bod angen iddo wneud rhai penderfyniadau pwysig i sicrhau bod gwasanaethau yn gynaliadwy yn y dyfodol. Gwnaed tri chynnig ar gyfer gwella gennym i'r Awdurdod roi sylw iddynt.

## Astudiaethau llywodraeth leol

Yn ogystal â gwaith lleol ym mhob cyngor lleol, rydym hefyd yn cyflawni astudiaethau bob blwyddyn ar draws y sector llywodraeth leol i wneud argymhellion ar gyfer gwella gwerth am arian. Ers yr adroddiad gwelliant blynyddol diwethaf, rydym wedi cyhoeddi'r adroddiadau canlynol:

## Gwasanaethau dewisol (Ebrill 2021)

Mae pwysau ariannol wedi arwain at gynghorau'n lleihau gwariant a thorri gwasanaethau, ond mae'r pandemig wedi dangos bod gwasanaethau llywodraeth leol yn hanfodol i gadw pobl yn ddiogel ac yn iach. Canolbwyntiwyd ar sut mae cynghorau yn diffinio gwasanaethau, y systemau a'r prosesau y maent wedi eu defnyddio i adolygu gwasanaethau a pha mor gadarn yw'r rhain. Mae galw am rai gwasanaethau hanfodol yn parhau i gynyddu ac nid yw cynghorau yn hyderus y gallant barhau i ddarparu'r gwasanaethau hyn yn wyneb y galw cynyddol a chymhleth hwn. Mae angen i gynghorau fanteisio ar y cyfle i adnewyddu, ail-werthuso ac ail-osod yr hyn y maent yn ei wneud a dysgu o'r pandemig i greu dyfodol gwell. Cyhoeddwyd ein hadroddiad ym mis Ebrill 2021.

## Adfywio canol trefi yng Nghymru (Medi 2021)

Rhwng 1950 a 1980, blaenoriaethwyd adfywio canol trefi gan awdurdodau lleol gan greu lle manwerthu newydd a mwy. Fodd bynnag, mae dewisiadau polisi y gorffennol, disgwyliadau newidiol defnyddwyr a datblygiadau technolegol yn cael effaith niweidiol ar lawer o ganol trefi Cymru erbyn hyn. Ac mae'r pandemig wedi creu heriau i lywodraeth leol a llywodraeth ganolog, gydag un o bob saith siop ar strydoedd mawr Cymru yn wag erbyn hyn, er i Lywodraeth Cymru fuddsoddi ac ysgogi £892.6 miliwn yn y saith mlynedd diwethaf. Nid oes gan awdurdodau lleol y capasiti i ymateb i'r sefyllfa hon ac nid ydynt bob amser yn defnyddio'r pwerau sydd ganddynt i helpu i adfywio trefi. I gyflawni'r canlyniadau lleol gorau, mae angen alinio ac integreiddio polisïau a chydweithio, a blaenoriaethu adnoddau i ganol trefi. Cyhoeddwyd ein hadroddiad ym mis Medi 2021.

## Gwaith arfaethedig ar gyfer 2021-22

Edrychwyd gennym hefyd ar yr heriau a'r cyfleoedd allweddol sy'n wynebu'r Awdurdod. Gallai'r rhain gael effaith ar allu'r Awdurdod i gyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol o ran yr egwyddor datblygu cynaliadwy a'r defnydd o'i adnoddau.

Y perygl a'r broblem fwyaf sylweddol sy'n wynebu awdurdodau a'r sector cyhoeddus ehangach yn 2021-22 yw pandemig COVID-19 o hyd. Rydym wedi llunio ein gwaith i ddarparu sicrwydd a her mewn ffordd sy'n helpu i gynorthwyo'r Awdurdod drwy'r cyfnod hwn. Mae ein gwaith arfaethedig ar gyfer 2021-22 yn cynnwys:

- Gostyngiadau i Allyriadau Carbon

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth, ac fe’i penodir gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i’r Senedd.

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau’r parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol, yn asesu cydymffurfiad â gweddill gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a gall gynnal arolygiadau arbennig o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a’r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy’n gysylltiedig â hi, Comisiwn y Senedd a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Archwilio Cymru yw’r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.